Cyngor Cymuned Pennal

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.
☏ 07974795778
E bost: Cyngorpennal@outlook.com

21ain Hydref 2026

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED PENNAL Nos Wener y 30ain Hydref 2026 am 7.30pm** yn y Ganolfan , Pennal.

Cysyllwch gyda mi os oes unrhyw ymholiad

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1.Gair o groeso, a sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

Derbyn ymddiheuriadau a gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd Medi 2026 – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Priffyrdd.

b) Mynwent yr Eglwys – *ystyried y diweddaraf.*

c) Cynllun 'Gwynedd Ni' – cronfa Cynghorau tref/Cymuned. Ystyried y diweddaraf.

d) Cyngor Tref Aberdyfi – Cynllun Trafnidiaeth cymunedol gwirfoddol – nodi'r diweddaraf.

e) Gwelliant i'r arhosfan bws yn Cwrt – nodi'r diweddaraf

f) Sedd wag ar y Cyngor.

g) Cynllun y fynwent newydd yn Pennal

h) Baw cwn ar y Marian

5**. Materion Cynllunio**

NP5/75/68G – newid defnydd y rhandiroedd I fod yn erddi preswyl ar gyfer Lleiniau 14, 15, a 16 a chaniatwyd o dan y Caniatad Cynllunio NP5/75/68B 21/12/2023 – *hwn wedi ei ddosbarthu, ac nid oedd gwrthwynebiad*

6.**Materion Cyllid.**

a) Nodi balansau y cyfrifon.

b) Nodi anfonebau i law;

- Cyfraniad toiledau Pennal 2026-27
- Torch Sul y Cofio

c) Nodi ceisiadau am arian

- Eisteddfod Maldwyn Meirionnydd 2027
- Ysgol Pennal
- Papur Bro Dail Dysynni

7**.Gohebiaeth**

- Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru.

8. **Unrhyw fater arall**